

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2019/20

Y Brifysgol Agored

# CYNNWYS

1. Cyflwyniad	3
2. Llywodraethu	4
3. Cydymffurfiaeth	7
4. Ffocws ar y flwyddyn i ddod	14

## 1. CYFLWYNIAD

Yn yr un modd â darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru, cafodd Y Brifysgol Agored hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 29 Medi 2017. Er bod Y Brifysgol Agored wedi'i datganoli'n rhannol (Y Brifysgol Agored yng Nghymru), mae'r hysbysiad cydymffurfio a'r safonau dilynol yn gymwys i'r Brifysgol Agored fel un endid. Fodd bynnag, mae'r safonau eu hunain yn gymwys i staff, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

Yr adroddiad hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yw'r trydydd adroddiad i'w lunio gan Y Brifysgol Agored yn unol â safonau 166, 172 a 178. Yn ystod hanner olaf y cyfnod hwn, cafodd bywyd cyhoeddus yng Nghymru ei ddiffinio gan bandemig y Coronafeirws. Yn yr un modd â phob prifysgol a chorff cyhoeddus arall, bu'n rhaid i'r Brifysgol Agored addasu sawl ffordd o weithio er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau, gan leihau'r risg i'r cyhoedd a chydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar yr un pryd.

Mae hyn wedi effeithio ar y ffordd y mae'r Brifysgol Agored wedi sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Er enghraifft, gan fod busnes wyneb yn wyneb megis digwyddiadau cyhoeddus a chyfweliadau swyddi wedi'u symud ar-lein, gwnaethom weithio'n agos gyda chyfieithwyr ar y pryd i ddarparu ar gyfer hyn. Mae hyn wedi galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar fideos byw mewn sefyllfaoedd lle y byddent wedi dewis gwneud hynny wyneb yn wyneb.

Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd wedi cau ar ddau achlysur gwahanol yn dilyn cyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi cynnal cnewyllyn staff rhwng y cyfnodau hynny. Mae'r swyddfa wedi parhau ar gau i ymwelwyr drwyddi draw, gan gyfyngu ar nifer yr ymholiadau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. yn y dderbynfa. Mae llawer o'n staff cymorth myfyrwyr wedi cael eu cefnogi i weithio gartref fel y gallant barhau i ateb galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr yn Gymraeg.

Fodd bynnag, fel darparwr dysgu o bell sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i addysgu ar-lein, mae'r Brifysgol Agored wedi gallu ymateb yn gymharol dda i'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig. Mae ein gwaith addysgu ar-lein wedi parhau, ac rydym yn cefnogi partneriaid i hyrwyddo cyfleoedd dysgu i randdeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi

hyrwyddo ein cyrsiau OpenLearn dwyieithog am ddim i'r cyhoedd ar ei gwefan, Cymru'n Gweithio. Rydym hefyd yn rhan o gynnig sector cyfan, gan weithio ochr yn ochr â'r Coleg Cymraeg, i ddatblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgu cyfunol.

## 2. LLYWODRAETHU

Parhaodd grŵp llywio safonau'r Gymraeg i gydlynu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2019-20. Er mai'r bwriad oedd i'r grŵp hwn gyfarfod bob chwe mis, ni chynhaliwyd cyfarfod gwanwyn 2020 yn sgil effaith y pandemig ar fusnes y brifysgol.

Mae'r Brifysgol Agored yn parhau i weithio'n agos gydag ymgynghorwyr y Gymraeg Ateb, gan sicrhau y gellir ceisio'r arbenigedd hwnnw wrth ddelio â materion cydymffurfiaeth a allai fod yn gymhleth. Mae Rheolwr Cyfathrebu Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn parhau i arwain ar faterion y Gymraeg, gan roi cyngor i staff ym mhob rhan o'r brifysgol.

Yr oedd rhai o'r datblygiadau yn ystod 2019/20 yn cynnwys:

- darparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff cyfadrannau
- annog mwy o fyfyrwyr i gyflwyno asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob un o'r cyfadrannau
- hwyluso mwy o gyfweiliadau ar gyfer swyddi gwag staff a myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd dros fideo
- defnyddio meddalwedd fideo ar gyfer digwyddiadau byw, gan alluogi cyfranogwyr i gyfrannu'n ddwyieithog gan ddefnyddio swyddogaethau sgwrsio

Gan edrych ymlaen at 2020/21, mae'r Brifysgol Agored wedi sefydlu grŵp goruchwyllo safonau'r Gymraeg yn ddiweddar. Mae'r grŵp hwn yn parhau â gwaith grŵp llywio safonau'r Gymraeg, a sefydlwyd i sicrhau cydymffurfiaeth cyn i'r safonau gael eu gosod. Bydd y grŵp yn parhau i gyfarfod bob chwe mis.

Cadeirir y grŵp gan Gyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Louise Casella. Mae aelodau o staff o bob rhan o'r brifysgol wedi'u penodi i'r grŵp er mwyn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Pobl
- Gwasanaethau Academaidd
- Llywodraethu

- Ffurflenni
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Myfyrwyr
- TG

### 3. CYDYMFFURFIAETH

#### A. Safonau Darparu Gwasanaethau

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

Safonau	Dyddiad gosod
1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 19, 20, 21, 22, 24, 24A, 26A, 27, 27A, 27D, 29, 29A, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 40, 40A, 41, 42, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 52, 53A, 53B, 54, 58, 59, 60, 61, 62, 63, 65, 66, 67, 68, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 76A, 78, 79, 85, 86, 87, 88, 89, 90, 90A, 93	1 Ebrill 2018
53, 55, 80, 81, 81A, 83, 84	1 Hydref 2018

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gwaith diweddar i sicrhau'r gydymffurfiaeth orau â'r safonau hyn yn cynnwys:

- parhau i hysbysu myfyrwyr am eu hawl i gael deunydd cyfathrebu ysgrifenedig yn Gymraeg drwy ein llwyfan studenthome
- cynyddu nifer y cwmnïau cyfieithu a ddefnyddir gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru er mwyn ymdopi â chyfnodau o alw mawr
- cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ar ein llinell cymorth myfyrwyr
- codi ymwybyddiaeth myfyrwyr a'r cyhoedd o'u hawliau i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg drwy *Diwrnod Shwmae Sumai* a *Diwrnod Hawliau*
- cynyddu nifer yr astudiaethau achos myfyrwyr fideo ar wefan y Brifysgol Agored yng Nghymru

## B. Safonau llunio polisïau

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

Safonau	Dyddiad gosod
94, 95, 96, 97, 98, 99, 100, 101, 102, 103, 104	1 Hydref 2018

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau llunio polisïau yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r gwaith canlynol wedi parhau ers y dyddiad gosod

- Mae'r adnodd sgrinio ar gyfer asesu polisïau yn parhau i gael ei ddefnyddio, sy'n helpu i ystyried unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg, a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r staff wedi archifo polisïau, ac mae'r adnodd wedi'i aildefnyddio wrth i bolisïau gael eu diwygio.



## C. Safonau gweithredol

Mae'r Brifysgol Agored wedi mabwysiadu'r safonau canlynol yn llawn:

Safonau	Dyddiad gosod
106, 107, 108, 109, 110, 111, 119, 119A, 121, 122, 123, 123A, 125, 126, 127, 132, 134, 135, 137, 138, 139, 140, 141, 142, 143, 144, 144A, 145, 145A, 146, 146A, 146B, 148, 149, 150, 151, 152, 153	1 Ebrill 2018
105, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118	1 Hydref 2018
111	1 Ebrill 2019

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â safonau gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd.

## SGILIAU CYMRAEG - YN UNOL Â SAFONAU 134 A 158

Mae'r Brifysgol Agored wedi arolygu sgiliau Cymraeg ei chyflogeion. Mae'r tabl canlynol yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn seiliedig ar gyfradd cwblhau o **44%**:

<b>Sgiliau gwranddo Cymraeg</b>	<b>Rhif</b>	<b>%</b>
Dim sgiliau	34	39%
Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg)	13	15%
Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg (Ble mae....? / Ga i siarad â....?)	15	17%
Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg	7	8%
Yn gallu dilyn sgysiau arferol yn ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl	4	5%
Yn gallu dilyn y mwyafrif o sgysiau yn ymwneud â gwaith, gan gynnwys trafodaethau grŵp	2	2%
Yn gallu deall pob sgwrs yn ymwneud â gwaith	13	15%
<b>Sgiliau darllen Cymraeg</b>		
Dim sgiliau	31	35%
Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg)	11	13%
Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol (e.e. arwyddion neu nodiadau byr syml)	24	27%
Yn gallu darllen deunydd sylfaenol yn ymwneud â gwaith (yn araf)	2	2%
Yn gallu darllen deunydd arferol gyda chymorth geiriadur	3	3%
Yn gallu deall y mwyafrif o ddeunydd yn ei faes gwaith ei hun	6	7%
Yn gallu deall pob deunydd yn ymwneud â gwaith	11	13%
<b>Sgiliau siarad Cymraeg</b>		
Dim sgiliau	37	42%
Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg)	13	15%

Yn gallu ateb ymholiadau syml (e.e. cyfarchion, (Ble mae....? / Ga i siarad â....?))	15	17%
Yn gallu ateb ymholiadau syml yn ymwneud â gwaith	2	2%
Yn gallu sgwrsio â rhywun, gyda rhywfaint o betruster, am faterion gwaith arferol	5	6%
Yn gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg	6	7%
Rhugl - yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau am gyfnod estynedig o amser lle bo angen	10	11%
<b>Sgiliau ysgrifennu Cymraeg</b>		
Dim sgiliau	38	43%
Wrthi'n meithrin sgiliau (e.e. yn mynychu cwrs Cymraeg)	11	13%
Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol (Diolch am y llythyr, Dyma gopi o.....)	18	20%
Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth	1	1%
Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygu	5	6%
Yn gallu paratoi y mwyafrif o ddeunydd ysgrifenedig, gyda rhywfaint o gymorth i'w ddiwygio	8	13%
Medrus – yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig cymhleth heb fod angen ei ddiwygio	6	7%

## HYFFORDDIANT - YN UNOL Â SAFONAU 135 A 159

- Yn unol â safon 135, rydym wedi gwneud darpariaethau i alluogi ein staff i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol yn Gymraeg, lle y caiff yr hyfforddiant yn y meysydd hynny ei ddarparu yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaeth yr un aelod o'r staff ddewis yr opsiwn Cymraeg.

## RECRIWTIO - YN UNOL Â SAFON 145 A 162

Rhwng 1 Awst 2018 ac 1 Awst 2019, recriwtiodd Y Brifysgol Agored y nifer canlynol o weithwyr ar gyfer swyddi â gofynion iaith penodol i'r Brifysgol Agored yng Nghymru:

- (i) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 1
- (ii) Swyddi lle roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd - 0
- (iii) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 29
- (iv) Swyddi lle roedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol - 2

## 4. FFOCWS AR Y FLWYDDYN I DDOD

Dros y 12 mis nesaf, bydd Y Brifysgol Agored yn parhau i ystyried ffyrdd gwell o sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau'r Gymraeg, yn arbennig o ystyried yr heriau parhaus a wynebir yn sgil pandemig COVID-19. Drwy drefnu mwy o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ar-lein, boed hynny drwy ddarlithoedd cyhoeddus neu ddiwrnodau agored i fyfyrwyr ar-lein, rydym wedi gallu cyrraedd mwy o bobl a chymunedau ledled Cymru, a dylem achub ar y cyfle hwn i sgwrsio'n fwy â siaradwyr Cymraeg.

Wrth addysgu, rydym yn parhau i weld nifer bach o fyfyrwyr yn dewis cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg. Mae mwy a mwy o siaradwyr Cymraeg yn ymuno â'n cynlluniau gradd nyrsio a gwaith cymdeithasol, ac rydym wedi penodi tiwtor Cymraeg penodol ar gyfer myfyrwyr nyrsio yn ddiweddar. Er gwaethaf yr heriau a wynebir gan y proffesiwn addysgu, mae ein cwrs TAR newydd yn mynd o nerth i nerth, a chaiff ei gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg i ddarparu athrawon a fydd yn ymuno â'n system addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd yn parhau ar gau i ymwelwyr, a dim ond pan fo cyngor y Llywodraeth yn caniatáu hynny y mae ar agor i'r staff. Rydym wedi cytuno ar drefniant newydd â thiworiaid Cymraeg i roi gwersi Cymraeg ar-lein, yn lle ein gwersi staff wythnosol hynod boblogaidd yn ein swyddfa.

Mae nifer y myfyrwyr yn y Brifysgol Agored yn y DU ac yng Nghymru yn benodol yn parhau i gynyddu, ac mae'r cynnydd yn nifer y staff newydd yn adlewyrchu hyn. Un o flaenoriaethau'r brifysgol yn ystod y flwyddyn i ddod fydd sicrhau y caiff penodeion newydd hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a'r Gymraeg yn gyffredinol, fel y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth da i staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â ni.